Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Standards of Conduct Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Rosemary Butler AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

21 Ionawr 2013

Annwyl Lywydd

**Lobïo**

Ysgrifennaf ynghylch eich cynnig i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad gynnal adolygiad o drefniadau'r Cynulliad o ran gweithgareddau lobïo. Diolch ichi am ein cyfarfod adeiladol iawn ar 7 Tachwedd 2012 i drafod hynt yr adolygiad hwn sydd, fel y gwyddoch, ymhlith blaenoriaethau'r adolygiad parhaus o holl weithdrefnau safonau'r Cynulliad.

Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gallu bwrw ymlaen i ystyried y mater pwysig hwn, er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau ar waith sy'n briodol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y cam cyntaf yn ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad oedd gofyn i'r Comisiynydd Safonau a oedd yn credu bod trefniadau presennol y Cynulliad yn ddigonol. Ar ôl ymchwilio i'r mater ac ymgynghori â holl Aelodau'r Cynulliad, y swyddogion cyfatebol yn neddfwrfeydd eraill y DU, a phartïon eraill sydd â diddordeb, mae'r Comisiynydd wedi paratoi adroddiad cychwynnol inni.

/2...

Mae'r Comisiynydd yn bendant o'r farn bod y trefniadau presennol sydd ar waith i reoleiddio lobïo, sy'n ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, yn eu hanfod yn ddigon cadarn ac addas i'r diben.

Mae consensws ymhlith aelodau'r Pwyllgor ynghylch asesiad y Comisiynydd. Barn unfrydol y rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ac sy'n gweithredu yng Nghymru a/neu yn y Cynulliad Cenedlaethol yw bod arferion lobïo yn dryloyw a'u bod, yn eu hanfod, yn cael eu plismona a'u rheoleiddio'n ddigonol. Nododd y Comisiynydd hefyd nad oedd yn ymwybodol bod yr un gŵyn yn ymwneud â lobïo wedi'i wneud yn erbyn Aelod ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Wrth ddod i'w gasgliad, cydnabu'r Comisiynydd yr angen i ddiwylliant 'agored' y Cynulliad barhau, gan sicrhau ei bod yn parhau'n hawdd cysylltu â'r Aelodau, er mwyn peidio â llesteirio'r broses ddemocrataidd; yr angen i sicrhau bod yr hyn sy'n dylanwadu ar ein cynrychiolwyr etholedig yn parhau'n dryloyw yng ngolwg y cyhoedd, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a phartïon eraill sydd â diddordeb; a'r angen i sicrhau cymesuredd, o ran defnyddio adnoddau a'r baich a roddir ar yr Aelodau a'r lobïwyr i ddatrys unrhyw broblem a ganfyddir yn y maes hwn.

Mae'r Pwyllgor a'r Comisiynydd hefyd yn nodi na ddylem laesu dwylo, a bod angen sicrhau y bydd y rheolau sydd ar waith yn parhau'n ddigon cadarn yn y dyfodol - yn enwedig o gofio'r pwerau deddfu ychwanegol a roddwyd i'r Cynulliad, a chanlyniad Comisiwn Silk, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd gennym bwerau benthyca arian a / neu godi trethi yn y dyfodol.

O gofio hyn, mae'r Pwyllgor am gynnal rhywfaint o waith ychwanegol i atgyfnerthu'r trefniadau presennol. Mae hyn yn cynnwys ceisio cryfhau'r rheolau'n ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol yn y Cynulliad, a chynnal rhagor o drafodaethau gyda'r diwydiant materion cyhoeddus, gan gynnwys Public Affairs Cymru fel prif gynrychiolydd y diwydiant yng Nghymru.

/3…

Ar ôl cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynhyrchu adroddiad o'i argymhellion manwl ar reoleiddio lobïo a'r rheolau'n ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol a hynny erbyn diwedd mis Chwefror 2013. Byddwn yn barod i gyfarfod â chi i drafod hyn ymlaen llaw os ydych yn credu y byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir



**Mick Antoniw AC / AM**
Cadeirydd / Chair
CC: Gerard Elias CF, Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru